

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Ashfield, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 15 Hydref 2024

Dyddiad cyhoeddi: 15 Ionawr 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	21
4.	Y camau nesaf	26
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	27
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	28
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	32

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Ashfield - Practis Grŵp Pen-y-bont ar Ogwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 15 Hydref 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 11 holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 7 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd canfyddiadau ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch a dywedodd pob un ohonynt fod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'dda iawn'. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion a'u gofalwyr mewn modd cwrtais a chadarnhaol.

Roedd prosesau ar waith a oedd yn galluogi'r cleifion i gael gafael ar y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir. Mae cyflwyno Mali, sef cynorthwydd digidol, wedi galluogi'r cleifion i gwblhau tasgau ar-lein heb orfod ffonio'r feddygfa, gan gynnwys gwneud cais am apwyntiad.

Mae gan y practis 'restr o gleifion pwysig' er mwyn sicrhau y gellir rhoi blaenoriaeth i gleifion sy'n agored i niwed, yn gaeth i'r tŷ a'r rhai sy'n cael gofal lliniarol pan fyddant yn ffonio'r feddygfa.

Dylai'r practis wella'r gwasanaeth hebryngwr a gynigir, drwy arddangos mwy o hysbysiadau yn ei ardaloedd trin clinigol a rhannu gwybodaeth ar y wefan.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arddangos mwy o hysbysiadau mewn perthynas â'r gwasanaeth hebryngwr, gan gynnwys ar y wefan ac mewn ardaloedd trin clinigol
- Defnyddio system dolen sain i gynorthwyo cleifion nad ydynt yn clywed gystal
- Diweddarau'r polisi llyf gwaith er mwyn darparu rhagor o wybodaeth am y broses, archwiliadau a chyfrifoldebau a gaiff eu dirprwyo

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mae cyflwyno Mali wedi darparu ffordd wahanol i gleifion gael gafael ar wasanaethau a chynghor
- Mae'r rhestr o gleifion pwysig yn fenter dda sy'n helpu cleifion agored i niwed y practis i gael gafael ar wasanaethau
- Roedd y cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch a'u bod yn cael gwasanaeth da.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Dangosodd ein canfyddiadau dîm clinigol ymroddedig a brwdfrydig a oedd yn gweithio'n galed i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Dangosodd y practis drefniadau cydweithio da fel clwstwr er mwyn sicrhau y gallai gofal cleifion barhau pe bai sefyllfa eithafol yn codi.

Roedd nodiadau meddygol y cleifion o ansawdd da ar y cyfan ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth glir a phriodol.

Roedd ymatebion gan y staff a gwblhaodd yr holiadur yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd pob aelod o'r staff yn teimlo mai gofalu am gleifion oedd prif flaenoriaeth y practis hwn ac roedd pob un ohonynt yn fodlon ar ymdrechion y practis i gadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel.

Gwnaethom gyhoeddi hysbysiad sicrwydd ar unwaith mewn perthynas â thri maes, gan gynnwys atal a rheoli heintiau; archwilio cyfarpar a chyffuriau brys a storio hylifau peryglus.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Nid oedd gweithdrefnau atal a rheoli heintiau cadarn bob amser ar waith yn y practis
- Nid oedd cyfarpar adfywio a chyffuriau brys yn cael eu harchwilio'n briodol
- Diffyg cydymffurfiaeth â Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002.

Caiff manylion am y gwelliannau a'r camau unioni gofynnol eu nodi yn [Atodiad B](#).

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cydymffurfio â phob agwedd ar hyfforddiant gorfodol
- Sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau yn cael eu diweddarau er mwyn adlewyrchu canllawiau a rheoliadau Cymru
- Sicrhau bod rhesymau yn cael eu dogfennu ar nodiadau cleifion pan roddir gorau i ddefnyddio meddyginiaeth

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cydweithio da rhwng y practis a'r clwstwr lleol o feddygfeydd
- Mae'r practis yn cyflogi nyrs iechyd meddwl, gan ddarparu cymorth a gofal amserol i'r cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y tîm rheoli yn cefnogi grŵp o staff ymrwymedig ac ymroddedig, yr oedd pob un ohonynt yn gweithio er lles pennaf eu cleifion. Gwelsom fod cymysgedd sgiliau priodol rhwng y timau er mwyn darparu'r gwasanaethau gofynnol.

Gwnaethom nodi bod y diwrnodau datblygu penodol sydd ar waith i helpu'r staff i gynllunio'r gweithlu a rheoli'r cymysgedd sgiliau yn fenter ganmoladwy.

Roedd proses recriwtio a sefydlu briodol ar waith. Mae'r staff yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â bylchau mewn hyfforddiant gorfodol ac i sicrhau bod gan bob aelod o'r staff ddisgrifiad swydd cyfredol a bod cofnodion priodol yn cael eu cadw o wriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Roedd ymatebion gan y staff a gwblhaodd yr holiadur yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd pob aelod o'r staff yn teimlo mai gofal cleifion yw prif flaenoriaeth y practis. Ar y cyfan, roedd y staff yn fodlon ar ymdrechion y practis i gadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â gofynion hyfforddiant gorfodol, a diweddarau'r matrices hyfforddiant er mwyn monitro cydymffurfiaeth
- Sicrhau bod rhifau fersiynau wedi'u nodi ar bolisiâu a gweithdrefnau, a chynnwys manylion yr awdur, dyddiad gweithredu a dyddiadau adolygu
- Sicrhau bod pob cyfarfod yn cael ei gofnodi a, lle y bo'n briodol, rhoi dull o gofnodi camau gweithredu ar waith er mwyn monitro eu cynnydd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cydweithio da rhwng y practis a'r clwstwr lleol o feddygfeydd
- Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn serchog â chleifion a gyda'i gilydd
- Proses gwyno a gaiff ei rheoli'n dda heb fawr ddim cwynion.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal a ddarperir gan feddygfa Ashfield. Cafwyd cyfanswm o 11 ymateb gan gleifion yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, gan olygu nad oedd 11 o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn.

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod amrywiaeth eang o wybodaeth hybu iechyd ysgrifenedig ar gael i gleifion yn y practis. Roedd y wybodaeth yn cael ei harddangos yn ardal aros y cleifion ac ar y sgrin arddangos ac yn cael ei hyrwyddo ar wefan y practis, ac roedd yn cynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu, rheoli pwysau, sepsis, y menopos, llinellau cymorth iechyd meddwl, cymorth canser a gwybodaeth i ofalwyr.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymgysylltu â sawl gwasanaeth er mwyn gwella mynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol amrywiol. Mae fferylllydd yn mynd i'r feddygfa bob wythnos ac mae ffisiotherapydd yn ymweld ddwywaith yr wythnos. Mae'r practis hefyd yn cyflogi nyrs iechyd meddwl. Mae'r gwasanaethau hyn yn galluogi'r cleifion i gael gafael ar gymorth a chefnogaeth gan wasanaethau eraill yn fwy amserol.

Roedd swyddogion llywio gofal yn gweithio i sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal cywir gan y gwasanaethau cywir yn dilyn eu cyswllt cychwynnol â'r practis. Er mwyn sicrhau bod cleifion sy'n agored i niwed yn cael gofal amserol, mae gan y practis restr o gleifion pwysig. Mae hyn yn golygu y gall cleifion sydd ar y rhestr hon neidio'r ciw (ar y ffôn) gan fod eu manylion wedi'u storio ar system y practis. Mae'r gwasanaethau hyn yn gwella gallu'r practis i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion a mynediad at y gofal hwn.

Cadarnhaodd pob ymatebydd i holiadur y cleifion fod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos yn y practis. Dywedodd pob un o'r cleifion ond un eu bod wedi cael cynnig cyngor ar ffyrdd iach o fyw. Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno bod eu meddyg teulu yn esbonio pethau'n dda iddynt ac yn ateb eu cwestiynau. Roedd pob

un o'r cleifion yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a'u bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent yn y broses o wneud penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Roedd gwaith paratoi'r practis i reoli rhaglen frechu flynyddol y gaeaf yn addas ac roedd yn cynnwys trefniadau ar gyfer cleifion sy'n gaeth i'r tŷ, yn agored i niwed a phreswylwyr cartrefi gofal. Roedd y practis yn cynnig clinigau ar ddydd Sadwrn ar gyfer cleifion nad oeddent yn gallu dod i'r feddygfa yn ystod yr wythnos.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol eu taith fel claf. Roedd yr ystafelloedd clinigol yn cynnig lefel briodol o breifatrwydd i'r cleifion. Roedd y drysau yn cael eu cadw ar gau yn ystod ymgynghoriadau. Yn ogystal, roedd llenni preifatrwydd ar gael yn yr ystafelloedd trin a'r ystafelloedd ymgynghori.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd yr holiadur i gleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a bod mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd.

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion mewn modd proffesiynol a chyfeillgar. Er mwyn sicrhau cyfrinachedd, roedd galwadau ffôn yn cael eu hateb yn y swyddfa weinyddol, a oedd wedi'i lleoli i ffwrdd o ddesg y dderbynfa. Roedd sgrin wydr o flaen desg y dderbynfa ac roedd yr ardal aros ar wahân i'r dderbynfa. Wrth fynd i mewn i'r feddygfa, roedd llinell ar y llawr ac arwydd yn gofyn i gleifion sefyll y tu ôl iddi. Roedd hyn yn cynnig rhywfaint o le i unrhyw un a oedd wrth ddesg y dderbynfa.

O ran y cleifion a ymatebodd i'r holiadur ynghylch eu gallu siarad â staff y dderbynfa heb i neb arall eu clywed; roedd pedwar yn cytuno a phedwar yn anghytuno.

Gwelsom un hysbysiad yn cynnig gwasanaeth hebryngwr. Dywedwyd wrthym mai dim ond gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fyddai'n darparu'r gwasanaeth hebryngwr, sef staff benywaidd yn bennaf, er y gellid gofyn i feddygon teulu gwrywaidd pe bai angen. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r cwestiwn eu bod wedi cael cynnig hebryngwr.

Dylai'r practis ystyried arddangos rhagor o hysbysiadau mewn perthynas â'r gwasanaeth hebryngwr. Dylid arddangos y rhain mewn ardaloedd trin clinigol ac ar y wefan.

Amserol

Gofal amserol

Roedd prosesau ar waith i sicrhau y gallai'r cleifion gael gafael ar y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir ac mewn modd amserol. Gellid trefnu apwyntiadau dros y ffôn, drwy system ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae'r practis hefyd yn cynnig 'Mali', sef cynorthwydd digidol sy'n galluogi'r cleifion i gwblhau tasgau ar-lein heb orfod ffonio'r feddygfa, gan gynnwys gwneud cais am apwyntiad meddygol. Roedd y staff yn teimlo bod y system hon wedi lleihau amseroedd aros ar y ffôn yn sylweddol, a nodwyd gennym fod cyflwyno 'Mali' yn arfer canmoladwy.

Roedd apwyntiadau brys yn cael eu brysbennu'n briodol dros y ffôn gan staff y dderbynfa, gan ymgynghori â chlinigydd. Yn ogystal, mae gan y practis restr o gleifion pwysig, lle gall cleifion sy'n agored i niwed, yn gaeth i'r tŷ a'r rhai sy'n cael gofal lliniarol neidio'r ciw.

Darperir ar gyfer plant y mae angen apwyntiad wyneb yn wyneb arnynt, a bydd cleifion sy'n gaeth i'r tŷ yn cael ymweliad cartref fel y bo'n briodol.

Gwnaethom nodi bod y swyddogion llywio gofal wedi rhoi llwybr da ar waith, gan neilltuo cleifion i'r person neu'r gwasanaeth mwyaf priodol. Roedd y llwybr ar gael i bob aelod o'r staff ar ffurf electronig ac ysgrifenedig. Roedd y swyddogion llywio gofal yn gweithio gyda'r meddyg ar ddyletswydd a oedd ar gael i roi arweiniad yn ôl yr angen. Nodwyd gennym fod y practis yn gwneud defnydd da o wasanaethau cymorth clwstwr.

Roedd prosesau ar waith i gefnogi cleifion a oedd yn wynebu argyfwng iechyd meddwl. Lle y bo'n briodol, caiff cleifion eu hatgyfeirio at y tîm argyfwng iechyd meddwl i gael cymorth argyfwng brys. Roedd cymorth a phrosesau cyfeirio amgen hefyd ar gael i gleifion yr oedd angen cymorth iechyd meddwl arnynt. Roedd y practis yn cyflogi nyrs iechyd meddwl sy'n asesu cleifion ac yn eu cyfeirio at y gwasanaeth mwyaf priodol ac mae slotiau brys ar gael gyda'r nyrs bob dydd. Mae cael nyrs iechyd meddwl fel rhan o'r tîm clinigol yn enghraifft o arfer canmoladwy.

Mewn ymateb i'r holiadur i gleifion, roedd 64% yn teimlo eu bod yn gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod pan oedd angen iddynt weld meddyg teulu ar frys, roedd 90% yn fodlon ar oriau agor y practis, roedd 90% yn teimlo y gallent gysylltu â'r practis pan oedd angen, a dywedodd 80% fod eu hapwyntiad ar amser.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod y staff yn cyfathrebu'n glir ac mewn iaith sy'n briodol i anghenion y cleifion. Roeddent yn darparu gwybodaeth mewn ffordd a oedd yn galluogi'r cleifion i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal. Nid oedd gan y

feddygfa ddolen sain i gefnogi'r rhai sy'n drwm eu clyw, ond mae gan y practis wasanaeth dehongli i bobl fyddar a ddarperir ar iPad.

Dylai'r practis sicrhau bod system dolen sain ar gael ac arddangos hyn ger y dderbynfa er mwyn dangos bod y gwasanaeth hwn ar gael.

Fel arfer, caiff cleifion wybod am y gwasanaethau a gynigir yn y practis drwy'r wefan, y cyfryngau cymdeithasol, ar ap y feddygfa a thrwy wybodaeth a diweddariadau a gaiff eu rhannu drwy wasanaeth negeseuon testun. Os yw'n hysbys nad oes gan gleifion fynediad digidol, byddai llythyrau yn cael eu hanfon at unigolion a byddai'r practis yn cyfathrebu â nhw drwy alwadau ffôn.

Dywedwyd wrthym fod ychydig o'r staff yn siarad Cymraeg, gan gynnwys un aelod o staff y dderbynfa a dau feddyg. Gwelsom hysbysiad wrth y dderbynfa yn rhoi gwybod i gleifion y gallent gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac roedd rhywfaint o wybodaeth ddwyieithog i gleifion ar gael hefyd. Roedd gwasanaethau cyfieithu ar gael i'r practis, pe bai angen.

Roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer cofnodi gwybodaeth gan wasanaeth gofal eilaidd a gweithredu yn ei chylch. Caiff llythyrau a dogfennau eu sganio ar nodiadau cleifion a'u hanfon at yr ymarferydd gofal iechyd cywir er mwyn gweithredu yn eu cylch yn ôl yr angen. O'r nodiadau y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom fod y staff gofal iechyd wedi rhoi gwybodaeth i gleifion mewn ffordd a oedd yn diwallu eu hanghenion unigol.

Roedd y practis yn sicrhau bod negeseuon yn cael eu trosglwyddo'n fewnol i'r bobl briodol gan ddefnyddio systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r practis, ac roedd derbynebaw darllen a thasgau penodol yn cael eu defnyddio er mwyn cadarnhau bod negeseuon wedi'u darllen.

Roedd prosesau a pholisi llif gwaith ar waith, er mai gwybodaeth gyfyngedig oedd yn y polisi, a byddai'n fuddiol ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn gynhwysfawr ac yn gyfredol.

Rydym yn argymhell bod y polisi llif gwaith yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau er mwyn darparu rhagor o wybodaeth am y broses, archwiliadau a chyfrifoldebau a gaiff eu dirprwyo.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd mynediad da i'r practis gyda maes parcio bach dynodedig am ddim ac roedd lleoedd parcio ar gael ar y stryd hefyd. Nodwyd gennym fod yr holl ardaloedd i gleifion, gan gynnwys ystafelloedd trin a'r toiled hygyrch, wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod.

Dyweddod pob un ond dau o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur fod yr adeilad yn hygyrch iawn.

Gwelsom dystiolaeth bod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Roedd hyfforddiant wedi cael ei drefnu i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mis Tachwedd 2024. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'n holiadur nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

Roedd hawliau cleifion trawsryweddol hefyd yn cael eu parchu, a chadarnhaodd y staff fod rhagenwau ac enwau a ffefrir yn cael eu defnyddio o ddechrau'r cyfnod trawsnewid.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a rhoi dystiolaeth i AGIC pan fydd wedi'i gwblhau.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd yr ardaloedd o'r practis yr oedd y cyhoedd yn eu gweld yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, gwelsom fod cyfarpar a deunyddiau glanhau yn cael eu storio yn ystafell y boeler. Oherwydd y peryglon posibl sy'n gysylltiedig â storio cemegion/deunyddiau glanhau ger peiriannau trydanol, gwnaethom ofyn i'r practis symud y rhain yn ddi-oed. Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.

Gwelsom gynllun parhad busnes y practis a oedd yn gyfredol ac yn cynnwys gwybodaeth berthnasol. Gwnaethom nodi nad oedd y risg i'r bartneriaeth wedi'i chwmpasu yn y cynllun parhad busnes a gwnaethom argymhell y dylid ychwanegu hyn at y ddogfen, er bod wyth partner ar hyn o bryd. Roedd y cynllun parhad busnes ar gael i bob aelod o'r staff drwy yriant a rennir.

Dylid diweddarau'r cynllun parhad busnes fel ei fod yn cynnwys y risg i'r bartneriaeth fusnes.

Dangosodd y practis drefniadau cydweithio da fel clwstwr er mwyn sicrhau y gallai gofal cleifion barhau pe bai sefyllfa eithafol yn codi.

Gwelsom fod y practis yn cael rhybuddion diogelwch cleifion ac yn eu rhannu â staff y practis a'u trafod mewn cyfarfodydd, a bod y broses yn gadarn.

Roedd systemau addas ar waith i'w gweld er mwyn galw am gymorth brys. Fodd bynnag, gwelsom fod cyfarpar a chyffuriau brys yn cael eu storio yn ystafell un o'r nyrsys. Gwnaethom argymhell y dylid symud y cyffuriau a'r cyfarpar i leoliad mwy canolog y gellid ei gyrraedd yn hawdd heb beryglu preifatrwydd ac urddas cleifion.

Gwnaethom drafod y camau a gymerir pan ofynnir am ymweliadau â chartrefi a gwnaethom nodi bod y staff yn ymwybodol pan oedd clinigwyr yn ymweld â chartrefi. Fodd bynnag, nid oedd asesiad risg ar gyfer ymweliadau â chartrefi ar waith, a gwnaethom argymhell y dylid cwblhau asesiad ac y dylid rhoi unrhyw gamau gweithredu neu liniaru ar gyfer y risgiau a nodir ar waith er mwyn sicrhau bod staff sy'n gweithio ar eu pen eu hunain yn ddiogel.

Rhaid cwblhau asesiad risg ar gyfer ymweliadau â chartrefi, rhoi camau lliniaru ar waith a'u cynnal fel y bo'n briodol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ni chawsom ein sicrhau bod amgylchedd y practis a'r trefniadau llywodraeth sydd ar waith yn cynnal y safonau atal a rheoli heintiau gofynnol er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Roedd angen diweddarau hyfforddiant y nyrs arwain a benodwyd ar gyfer atal a rheoli heintiau, ynghyd â hyfforddiant y tîm clinigol.

Llenni defnydd/nad ydynt yn rhai tafladwy oedd y llenni clinigol a ddefnyddiwyd i gynnal preifatrwydd ac urddas yn yr ystafelloedd clinigol. Nid oedd asesiad risg ar waith na thystiolaeth i ddangos y dyddiadau y newidiwyd y llenni, na thystiolaeth bod y llenni'n cael eu golchi'n briodol. Yn ogystal, ni chawsom ein sicrhau bod dulliau glanhau cadarn ar waith. Mewn un ystafell drin glinigol, gwelsom fod talpiau o lwch o dan y gwely trin.

Pan wnaethom ystyried sut mae'r practis yn sicrhau ei hun ynglŷn ag imiwnedd y staff yn erbyn hepatitis B, gwnaethom nodi nad oedd y gofrestr yn gyfredol. Roedd bylchau lle roedd statws Hepatitis B y staff clinigol yn cael ei wirio a phan wiriwyd pigiadau atgyfnerthu ac imiwnedd ddiwethaf. Heb dystiolaeth i ddangos hyn yn ystod yr arolygiad, ni chawsom sicrwydd y gallai'r practis sicrhau ei hun ynglŷn ag imiwnedd pob aelod o'r staff clinigol yn erbyn hepatitis B. Felly, ymdriniwyd â'r materion a nodwyd o dan ein proses sicrwydd ar unwaith, a nodir yn Atodiad B.

Roedd gan y practis bolisiâu ar gyfer atal a rheoli heintiau/anaf o ganlyniad i offer miniog. Roedd y rhain ar gael ar y gyriant a rennir fel y gallai pob aelod o'r staff gael gafael arnynt. Roedd y polisiâu ar feirysau a gludir yn y gwaed a nodwyddau/offer miniog yn cyfeirio at safonau a chanlyniadau sy'n berthnasol i Loegr ac mae angen adolygu a diweddarau hyn fel y bo'n berthnasol er mwyn adlewyrchu canllawiau a safonau Cymru.

Rhaid adolygu a diweddarau'r polisiâu ar feirysau a gludir yn y gwaed a nodwyddau/offer miniog er mwyn cynnwys canllawiau a safonau sy'n berthnasol i Gymru.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli a gwaredu gwastraff, gan gynnwys gwastraff gofal iechyd.

Gwnaethom nodi bod cyfleusterau addas i gadw pobl ar wahân er mwyn lleihau'r risg o heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd. Roedd proses lanhau ffurfiol ar waith hefyd ar ôl i ystafell gael ei defnyddio o dan amgylchiadau o'r fath.

Roedd Cyfarpar Diogelu Personol yn cael ei ddefnyddio'n briodol i gynnal arferion atal a rheoli heintiau da ac roedd cyfleusterau golchi dwylo priodol ar gael yn yr ystafelloedd trin.

Yn ein holiaduron, roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn cytuno bod arwyddion ger y fynedfa yn esbonio beth i'w wneud pe bai ganddynt afiechyd heintus. Roedd wyth allan o 11 o'r ymatebwyr yn credu bod hylif diheintio dwylo ar gael ac roedd ychydig mwy na hanner yr holl ymatebwyr yn teimlo bod y staff gofal iechyd yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl cael eu trin.

O'r cleifion hynny a nododd eu bod wedi cael triniaeth fewnwithiol yn y practis, nododd pob un fod y staff wedi defnyddio menig yn ystod y driniaeth. Nododd pob un o'r ymatebwyr heblaw un fod weips gwrthfacterol wedi cael eu defnyddio i lanhau'r croen cyn cynnal y driniaeth a bod unrhyw gyfarpar a ddefnyddiwyd mewn pecyn unigol neu wedi'i ddiheintio.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd prosesau ar waith yn y practis i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi'n ddiogel. Roedd y broses i gleifion ofyn am feddyginiaeth reolaidd yn glir. Dywedodd y staff wrthym fod y rhan fwyaf o'r cleifion yn archebu presgripsiynau drwy'r hwb rhagnodi. Roedd presgripsiynau yn cael eu prosesu mewn modd amserol gan glercod a oedd wedi cael hyfforddiant addas ac yn cael eu hawdurdodi gan feddyg.

Roedd y staff wedi ymgymryd â hyfforddiant drwy gwrs rheoli meddyginiaethau'r bwrdd iechyd.

Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel mewn cabinet ffeilio dan glo. Roedd proses ar waith i gael gwared ar badiau presgripsiwn pan fyddai meddyg teulu yn gadael y practis.

Roedd polisi rhagnodi ar waith. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth am ailawdurdodi rhai meddyginiaethau y mae angen i feddyg teulu eu cymeradwyo.

Rhaid i'r practis ddiweddarau'r polisi rhagnodi er mwyn cynnwys ailawdurdodi meddyginiaeth.

Ni chaiff unrhyw gyffuriau a reolir eu cadw yn y practis.

Roedd polisi cadwyn oer ar waith ar gyfer meddyginiaethau yr oedd angen eu cadw yn yr oergell, ac roedd oergelloedd clinigol yn cael eu defnyddio ar gyfer rhai meddyginiaethau a brechlynnau. Roedd gwiriadau dyddiol o dymheredd yn cael eu cwblhau a'u cofnodi. Roedd y staff nyrsio yn ymwybodol o'r ystodau gofynnol o ran y tymheredd uchaf a'r tymheredd isaf a beth i'w wneud pe bai'r gadwyn oer yn torri.

Nodwyd bod yr oergell ar gyfer brechlynnau yn yr ystafell drin yn orlawn. Gallai hyn amharu ar lif yr aer a'r gallu i gynnal tymhereddau priodol. Dylai'r practis

ystyried storio brechlynnau yn yr oergell feddygol er mwyn sicrhau bod yr aer yn llifo'n briodol.

Rhaid i'r practis sicrhau nad yw'r oergelloedd meddygol yn cael eu gorlenwi â brechlynnau ac ystyried cael oergell ychwanegol er mwyn sicrhau bod y trefniadau storio yn briodol a bod llif o aer oer.

Roedd dyddiadau'r cyffuriau y gwnaethom edrych arnynt yn ystod yr arolygiad i gyd yn gyfredol. Roedd person enwebedig yn y practis a oedd yn gyfrifol am archwilio'r cyffuriau bob mis, ac roedd y staff nyrsio yn gwybod pwy oedd yr unigolyn hwn hefyd. Roedd cofnodion yn cael eu cadw a oedd yn dangos y cyffuriau a'u dyddiadau defnyddio.

Ni chawsom ein sicrhau bod y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu gwirio'n briodol. Roedd y cofnodion yn dangos bod gwiriadau misol yn cael eu cynnal ond rydym yn argymhell bod y rhain yn cael eu cynnal yn wythnosol yn unol â Safonau Ansawdd Cyngor Adfywio'r DU mewn Gofal Sylfaenol. Ceir rhagor o fanylion am y camau gweithredu a gymerwyd gan AGIC mewn perthynas â'r mater hwn yn Atodiad B o'r adroddiad hwn.

Nodwyd gennym hefyd fod y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu storio yn yr ystafell drin. Nid yw hyn yn briodol oherwydd caiff yr ystafell ei defnyddio'n ddyddiol, gan gynnwys ar gyfer archwiliadau personol. Yn ogystal, nid oedd modd cael gafael ar y cyfarpar yn hawdd gan ei fod yn cael ei storio y tu ôl i'r oergell. Gallai hyn achosi oedi wrth geisio cael gafael ar y cyfarpar a'r cyffuriau pe bai argyfwng cardiaidd.

Rhaid i'r practis sicrhau bod cyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu symud i ardal lle gellir cael gafael arnynt yn hawdd ac yn gyflym. Rhaid rhoi gwybod i bob aelod o'r staff am y lleoliad newydd.

Gwelsom fod silindrau ocsigen o fewn eu dyddiad defnyddio a bod y lefelau stoc yn briodol. Roedd pob aelod o'r staff clinigol yn gwybod sut i ddefnyddio'r ocsigen ac yn ymwybodol o'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw ddiwyddiadau. Gwnaethom argymhell y dylai pob aelod o'r staff clinigol fod yn ymwybodol o'r canllawiau a'r cylchlythyrau iechyd diweddar yng Nghymru mewn perthynas â'r defnydd o ocsigen a'r gofyniad i glinigwyr sy'n ymdrin â therapi ocsigen cludadwy gwblhau hyfforddiant.

Rhaid i bob aelod o'r staff clinigol sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r canllawiau a'r cylchlythyrau iechyd diweddar yng Nghymru mewn perthynas â'r defnydd o ocsigen a rhoi unrhyw ofynion a argymhellir ar waith, gan gynnwys yr hyfforddiant ar-lein.

Diogelu plant ac oedolion

Gwnaethom ystyried y gweithdrefnau diogelu sydd ar waith yn y practis a gwelsom fod polisi ar waith sy'n cynnwys oedolion a phlant. Roedd y polisi yn cyfeirio at weithdrefnau diogelu cenedlaethol Cymru ac roedd ar gael i bob aelod o'r staff ar y gyriant a rennir. Roedd arweinydd diogelu a enwyd yn y practis ond nid oedd hyn wedi'i gofnodi yn y polisi ac nid oedd rhai aelodau o'r staff yn gwybod pwy oedd arweinydd diogelu'r practis.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwybod pwy yw'r arweinydd diogelu ar gyfer oedolion a phlant, a rhaid arddangos manylion yr unigolyn yn amlycach i'r staff.

Dylai'r polisi diogelu gynnwys enw'r arweinydd diogelu ar gyfer plant ac oedolion.

Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom enghreifftiau lle roedd pobl yn cael eu nodi'n benodol os oedd unrhyw bryderon diogelu yn eu cylch a dilynwyd llwybr diogelu addas.

Nid oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r lefel briodol o hyfforddiant ar ddiogelu. Mae cwrs hyfforddiant wedi cael ei drefnu ar gyfer mis Tachwedd 2024 er mwyn sicrhau bod gan y staff lefel briodol o wybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â'r lefel ofynnol o hyfforddiant diogelu (plant ac oedolion) sy'n briodol i'w rôl, a dylid cadw cofnod er mwyn dangos hyn.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau a'r chyfarpar meddygol yn cael eu harchwilio'n briodol a'u bod mewn cyflwr da. Roedd contractau addas ar waith ar gyfer trwsio'r chyfarpar hwn neu gael cyfarpar newydd. Roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol ac yn cael eu gwaredu'n gywir.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd prosesau addas ar waith er mwyn helpu i ddarparu triniaethau a gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Dywedwyd wrthym fod newidiadau neu ganllawiau newydd yn cael eu hanfon at bob aelod o'r staff drwy e-bost ac y cânt eu trafod yng nghyfarfodydd y practis. Mae cylchlythyr misol hefyd yn tynnu sylw at negeseuon a gwybodaeth allweddol. Mewn perthynas â chyfarfodydd clinigol, nid oedd

cofnodion yn cael eu gwneud er mwyn egluro'r hyn a drafodwyd, nac i'w rhannu â'r rhai a oedd yn absennol. Dylid cadw cofnodion o'r cyfarfodydd hyn ynghyd â chofnod o gamau gweithredu er mwyn olrhain cydymffurfiaeth ag unrhyw gamau gweithredu.

Roedd y broses o atgyfeirio cleifion yn cael ei rheoli i safon foddhaol, gan gynnwys atgyfeiriadau brys. Caiff cyfraddau atgyfeirio eu trafod yng nghyfarfodydd y clwstwr er mwyn pennu unrhyw dueddiadau. Roedd y broses ar gyfer archebu profion a rhannu canlyniadau profion â'r cleifion yn gadarn, ac roedd system briodol ar waith ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau.

Roedd cleifion yr oedd angen cymorth meddygol brys arnynt neu'r rhai hynny a oedd yn wynebu argyfwng iechyd meddwl yn cael gwybodaeth addas. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r practis yn cyflogi ymarferydd iechyd meddwl dynodedig, sy'n golygu y gellir cyfeirio cleifion yn briodol. Yn ogystal, mae meddyg teulu brysbennu ar alwad ar gael bob dydd, ynghyd â phroses ar gyfer cymryd camau dilynol mewn perthynas â chleifion a chynnal adolygiadau parhaus.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion electronig deg claf ac roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd cyfrinair arnynt er mwyn atal unrhyw fynediad heb awdurdod. Ar y cyfan, roedd y cofnodion yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac yn cynnwys gwybodaeth briodol. Roeddent wedi'u hysgrifennu ar y pryd ac roedd y wybodaeth yn hawdd i glinigwyr eraill a oedd yn edrych ar y cofnodion ei deall.

Roedd codau Read yn cael eu defnyddio'n dda ac roedd yn ymddangos bod gan bob salwch y cod Read priodol.

O'r nodiadau y gwnaethom edrych arnynt, nodwyd nad oedd dewis iaith y claf yn amlwg ar y cofnodion. Fodd bynnag, dywedodd y claf y byddai'r wybodaeth hon yn ymddangos fel hysbysiad pan fyddai claf yn cael apwyntiad.

Byddai o fudd i'r practis gael trefn y cytunir arni ar gyfer cofnodi arsylwadau clinigol cleifion, megis pwysedd gwaed, pwls a thymheredd, fel y gellid cynnal archwiliadau mwy effeithiol. Nid oedd meddyginiaethau nad ydynt yn cael eu darparu mwyach yn cael eu cofnodi'n gyson yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt.

Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:

- **Bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi'n amlwg ar eu cofnodion clinigol**

- Bod dull cyson o gofnodi arsylwadau yn cael ei roi ar waith er mwyn monitro ac archwilio'r rhain yn ôl y gofyn
- Bod unrhyw feddyginiaeth nad yw'n cael ei darparu mwyach yn cael ei dogfennu yng nghofnodion y cleifion ynghyd â'r rheswm pam.

Effeithlon

Effeithlon

Gwnaethom nodi bod gwasanaethau yn cael eu trefnu mewn ffordd effeithlon a'u bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn, er mwyn sicrhau bod y bobl yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso yn ystod eu taith gofal iechyd.

Mae gwasanaeth ffisiotherapi lleol ar gael yn ogystal ag atgyfeiriadau at gynllun ymarfer corff yn y canolfannau hamdden lleol. Gall y cleifion hefyd gael gafael ar wasanaethau deietegydd, sgrinio llygaid, addysg diabetes a brechu tymhorol.

Mae staff nyrsio o ganghennau gwahanol y practis yn cyfarfod yn rheolaidd. Caiff cyfarfodydd a chamau gweithredu eu cofnodi er mwyn sicrhau bod y staff yn gweithio ar draws gwasanaethau i gydgyssylltu gofal yn effeithiol a hyrwyddo'r canlyniadau gorau i gleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Dywedwyd wrthym fod llawer o newidiadau wedi bod yn y practis a'r rhai diweddaraf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf lle ymunodd sawl meddygfa cangen â Meddygfa Ashfield ym Mhractis Grŵp Pen-y-bont ar Ogwr. O ganlyniad, mae rolau a chyfrifoldebau'r staff yn dod yn gliriach, a gwelsom fod tîm rheoli cefnogol ac ymroddedig yn gweithio er budd y staff a'r cleifion.

Roedd proses glir ar gyfer rhannu gwybodaeth â'r staff, megis newidiadau mewn polisiau neu weithdrefnau. Roedd pob polisi a gweithdrefn ar y gyriant a rennir ac roedd yr holl staff yn cael neges e-bost pan fyddai unrhyw newidiadau. Roedd angen derbynneb darllen ar y negeseuon e-bost hyn. Fodd bynnag, nid oedd rhif fersiwn ar bob polisi a gweithdrefn a oedd ar waith.

Rhaid i'r practis sicrhau bod rhifau fersiynau wedi'u nodi ar bob polisi a gweithdrefn, a'u bod yn cynnwys enw awdur y polisi ynghyd â'r dyddiad gweithredu a'r dyddiadau adolygu.

Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal fel mater o drefn, ond nid oedd pob un yn cael ei gofnodi. Dywedwyd wrthym y byddai'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd clinigol, ond nid oedd ffordd ffurfiol o sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu rhoi ar waith gan nad oedd cofnodion yn cael eu cymryd.

Rhaid i'r practis gymryd cofnodion ym mhob cyfarfod a, lle y bo'n berthnasol, dylid cadw cofnod o gamau gweithredu er mwyn sicrhau y gellir eu monitro a'u rhoi ar waith.

Roedd y practis yn gweithio'n agos gyda grŵp clwstwr y Bwrdd Iechyd ac yn cydweithio i arwain prosiectau, rhannu gwersi a ddysgwyd a chyd-reoli mentrau.

Roedd rhaglenni llesiant ar gael i'r staff, ac roedd gwybodaeth am y gwasanaeth yn cael ei harddangos ar bosteri. Roedd y gwasanaethau cymorth yn cynnwys gwasanaeth cwnsela, a oedd yn annibynnol ar y practis a gallai'r staff ei ddefnyddio'n gyfrinachol.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwnaethom siarad â staff a oedd yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau yn y practis. Roedd gan bob un ohonynt wybodaeth gadarn am eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac roedd yn ymddangos bod pob un ohonynt yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion. Cadarnhaodd y staff eu bod yn gweithio'n unol â'u cymwysterau, eu sgiliau a'u profiad ac nad oedd unrhyw ddisgwyliad iddynt weithio y tu hwnt i hynny. Gwelsom fod cymysgedd sgiliau priodol rhwng y timau er mwyn darparu'r gwasanaethau gofynnol.

Mae'r practis yn cynnal diwrnodau datblygu ddwywaith y flwyddyn, a chaiff y rhain eu cynnal y tu allan i'r practis. Mae hyn yn rhoi amser penodol i'r staff drafod y gweithlu, setiau sgiliau'r staff, anghenion hyfforddiant a'r cymysgedd sgiliau. Mae'r broses yn ganmoladwy gan ei bod yn dangos ymrwymiad y practis i ddatblygu ei wasanaethau.

Disgrifiodd y staff y broses ar gyfer recriwtio a chynnal gwiriadau cyn cyflogi. Roedd hyn yn cynnwys cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, geirdaon a darparu llythyr cynnig a chontract. Roedd llawlyfr staff ar gael i staff newydd hefyd. Byddai cofrestriad gweithiwr gofal iechyd proffesiynol â'i gorff rheoleiddio yn cael ei gadarnhau hefyd er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol. Er bod y broses a ddisgrifiwyd gan yr uwch-aelodau o'r staff yn foddhaol, nid oedd polisi recriwtio ar waith i gefnogi hyn.

Rhaid i'r practis roi polisi recriwtio ar waith.

Dywedwyd wrthym nad oedd rhai gwiriadau cyflogi wedi'u cwblhau'n llawn eto oherwydd newidiadau ymhlith y staff. Gwnaethom nodi er bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cwblhau ar gyfer rhai aelodau o'r staff, a bod tystiolaeth ohonynt, roedd gwiriadau eraill ar wahanol gamau o'r broses. Roedd y mater yn cael ei reoli ac roedd proses ar waith i fynd i'r afael â hyn. Hefyd, roedd y practis wrthi'n diweddarau disgrifiadau swydd, ac felly nid oedd disgrifiad swydd yn ffeil pob aelod o'r staff.

Rhaid i'r practis sicrhau bod gan bob aelod o'r staff ddisgrifiad swydd cyfredol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff a dylai'r staff ddatgan na fu unrhyw newidiadau a fyddai'n effeithio ar eu statws yn hyn o beth.

Gwelsom fod proses a pholisi sefydlu ar waith ar gyfer staff newydd eu penodi, hyfforddeion a myfyrwyr meddygol. Ar ôl cwblhau'r broses, byddai rheolwr y practis neu aelod penodedig o'r staff yn ei chymeradwyo a'i chofnodi.

Roedd rhai aelodau o'r staff yn cydymffurfio â'r hyfforddiant gorfodol. Fodd bynnag, wrth edrych ar gofnodion y staff, nodwyd bod enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio ymhlith y staff clinigol a'r staff anghlinigol, yn enwedig o ran hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, fel y nodwyd yn flaenorol. Mae rhaglen hyfforddiant wedi cael ei threfnu ar gyfer mis Tachwedd 2024. Pan gynhaliwyd ein hymweliad, roedd matrices hyfforddiant wrthi'n cael ei ddatblygu er mwyn cofnodi hyfforddiant pob aelod o'r staff a sicrhau y gellir monitro cydymffurfiaeth yn effeithiol, gyda'r nod o sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth y staff yn gyfredol yn unol â'u rôl.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cydymffurfio'n llawn â'r holl hyfforddiant gorfodol a rhoi tystiolaeth i AGIC pan fyddant wedi'i gwblhau.

Rhoddyd sicrwydd i ni y byddai'r staff yn cael eu cefnogi i fynegi pryder pe bai angen a chawsom gopi o bolisi chwythu'r chwiban y practis.

Dywedodd pob un o'r saith aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu yn ystod y 12 mis diwethaf, ac roedd pob un ond un yn teimlo bod cyfleoedd teg a chyfartal ar gael yn y gweithle i bob aelod o'r staff. At hynny, dywedodd y saith ymatebydd eu bod yn teimlo bod eu gweithle yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Dywedodd pob aelod o'r staff fod systemau TGCh priodol ar gael iddynt er mwyn helpu i roi gofal a chymorth i gleifion. Yn ogystal, roedd y staff yn teimlo bod cymysgedd priodol o sgiliau yn y practis a bod y deunyddiau, y cyflenwadau a'r cyfarpar angenrheidiol ar gael i'w galluogi i wneud eu gwaith. Fodd bynnag, roedd y saith ymatebydd o'r farn nad oedd digon o staff er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith yn briodol, er bod pob ymatebydd ond un yn teimlo ei fod yn gallu bodloni'r holl alwadau croes ar ei amser yn y gwaith.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd gan y practis weithdrefn gwyno a oedd yn gyson â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am ymdrin ag unrhyw gwynion ac roedd hyn yn cael ei gyfleu yn glir yn y polisi cwyno a dogfennau'r weithdrefn. Mae cwynion/pryderon hefyd yn cael eu monitro er mwyn nodi unrhyw themâu a thueddiadau. Cânt eu trafod mewn cyfarfodydd hefyd a chaiff unrhyw gamau gweithredu er mwyn gwella eu rhannu â'r staff.

Gwelsom fod gwybodaeth am gwynion yn cael ei harddangos yn y feddygfa. Fodd bynnag, nid oedd tudalen we'r practis ar gyfer cwynion yn gweithio.

Rhaid i'r practis adolygu ei wefan er mwyn sicrhau bod y dudalen am gwynion yn gweithio a sicrhau bod modd cael gafael ar fanylion am broses Gweithio i Wella GIG Cymru yn hawdd.

Nid oedd tystiolaeth i ddangos bod adborth gan gleifion yn cael ei gasglu gan y practis fel mater o drefn er mwyn dysgu a llywio gwelliannau i'r gwasanaeth. Dywedodd y staff wrthym y gall y cleifion anfon neges e-bost neu ysgrifennu i'r practis i rannu adborth. Fodd bynnag, dylid rhoi proses ffurfiol ar waith er mwyn sicrhau bod llais y claf yn cael ei glywed. Byddai unrhyw adborth yn cael ei roi i'r staff rheoli er mwyn iddynt ei adolygu a chymryd camau gweithredu priodol yn ei gylch.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y cleifion yn cael gwybod sut i rannu adborth ar eu profiad, er mwyn helpu i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth a gwella profiad y claf.

Roedd y staff yn teimlo'n gyfforddus i leisio barn ynghylch unrhyw bryderon a all fod ganddynt, ac roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i gefnogi hyn. Yn ogystal, roedd y staff yn teimlo'n gyfforddus i rannu unrhyw awgrymiadau a allai fod ganddynt a gallent rannu'r rhain â'u rheolwr i'w hystyried.

Gwnaethom siarad ag uwch-aelodau o'r staff am y trefniadau a oedd ar waith mewn perthynas â sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Roedd polisi ar waith ar y Ddyletswydd Gonestrwydd ac roedd disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant ar hyn ym mis Tachwedd 2024.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y practis yn deall ei gyfrifoldeb wrth brosesu gwybodaeth a dangosodd fod data yn cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel. Roedd polisi llywodraethu gwybodaeth cyfredol ar waith i gefnogi hyn.

Roedd y practis yn defnyddio gwasanaeth lechyd a Gofal Digidol Cymru i gefnogi'r swyddog diogelu data a'r arweinydd llywodraethu gwybodaeth. Roedd proses y practis ar gyfer trin data cleifion ar gael ar y wefan.

Roedd trefniadau rhannu effeithiol a diogel ar waith i sicrhau bod data cleifion neu hysbysiadau yn cael eu cyflwyno i gyrff allanol yn ôl y gofyn.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd y practis yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd drwy ddatblygu a gweithredu ffyrdd arloesol o ddarparu gofal. Roedd y rhain yn cynnwys cymryd rhan uniongyrchol mewn prosiectau yn y clwstwr, megis y cynorthwydd digidol ar-lein, 'Mali', a gyflwynwyd i helpu i leihau amser aros i gleifion a sicrhau mynediad haws at wasanaethau ffisiotherapi. Roedd tystiolaeth hefyd o raglen archwilio clinigol a mewnl er mwyn monitro ansawdd.

Roedd y practis yn dysgu gwersi o adolygiadau mewnl ac allanol, gan gynnwys adolygiadau o farwolaethau, digwyddiadau a chwynion. Roedd yr holl wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â'r practis cyfan er mwyn gwneud gwelliannau. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, nid oedd unrhyw dystiolaeth o gofnodion na champau gweithredu y gellid eu rhannu â staff absennol.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Darparodd y practis enghreifftiau o'r ffordd y mae'n cael effaith ar rannau eraill o'r system gofal iechyd fel un o randdeiliaid gofal cleifion. Roedd hyn yn cynnwys dilyn llwybrau clinigol y bwrdd iechyd. Mae'r practis hefyd yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â phartneriaid y system mewn cyfarfodydd aml-ddisgyblaethol amrywiol, megis cyfarfodydd clwstwr a chyfarfodydd rheolwyr practis.

Roedd cydberthnasau cydweithredol da â phartneriaid allanol ac o fewn y clwstwr. Roedd y practis yn gweithio'n agos gyda'r clwstwr lleol o feddygfeydd er mwyn meithrin dealltwriaeth a rennir o heriau ac anghenion y boblogaeth leol a helpu i integreiddio gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer yr ardal ehangach.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Ashfield - Practis Grŵp Pen-y-bont ar Ogwr

Dyddiad yr arolygiad: 15 Hydref 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>1. Ni chafodd AGIC sicrwydd fod gweithdrefnau cadarn ar waith i wneud yn siŵr bod prosesau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal yn y practis.</p> <p>Llenni defnydd/nad ydynt yn rhai tafladwy oedd y llenni clinigol a ddefnyddiwyd i gynnal preifatrwydd ac urddas yn yr ystafelloedd clinigol. Nid oedd asesiad risg ar waith na thystiolaeth i ddangos y dyddiadau y newidiwyd y llenni, na thystiolaeth</p>	<p>Rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Newid yr holl lenni preifatrwydd ym mhob ystafell glinigol am rai y gellir eu golchi a/neu lenni tafladwy. Os caiff llenni y gellir eu golchi eu defnyddio, dylid sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw er mwyn dangos eu bod yn cael eu golchi'n briodol a'r dyddiadau y gwnaed hyn Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r lefel o hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau 	<p>Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel</p>	<p>Mae'r holl lenni yn yr ystafelloedd clinigol ym Meddygfa Ashfield wedi cael eu newid am rai tafladwy.</p> <p>Caiff hyfforddiant ei gynnal a chedwir cofnodion i ddangos ei</p>	<p>Nyrs Fricker</p> <p>Joanne Carter</p>	<p>Wedi'i gwblhau ddydd Gwener 18 Hydref 2024</p> <p>Rydym yn ymdrechu i sicrhau y bydd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyn erbyn</p>

<p>bod y llenni'n cael eu golchi'n briodol.</p> <p>Nodwyd gennym fod diffyg yn hyfforddiant y tîm clinigol ar atal a rheoli heintiau.</p> <p>Nid oedd y gofrestr hepatitis B yn gyfredol ac nid oedd yn adlewyrchu statws imiwnedd y staff.</p> <p>Ni chawsom ein sicrhau bod dulliau glanhau cadarn ar waith ac, mewn un ystafell drin glinigol, gwelsom fod talpiau o lwch o dan y gwely trin.</p>	<p>sy'n briodol i'w rôl. Dylid cadw cofnodion o hyfforddiant er mwyn dangos cydymffurfiaeth y staff, fel y bo'n briodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhaid diweddarau'r gofrestr Hepatitis B er mwyn adlewyrchu statws imiwnedd pob aelod priodol o'r staff. Rhaid cwblhau asesiadau risg ar gyfer y staff lle nad oes tystiolaeth o imiwnedd. Rhaid rhoi amserlen lanhau gadarn ar waith ar gyfer pob rhan o'r feddygfa. Rhaid rhoi sylw arbennig i bob ystafell drin glinigol, er mwyn cynnal amgylchedd glân a di-lwch a lleihau'r risg o groes-heintio. 		<p>fod wedi cael ei gwblhau.</p> <p>Rydym wrthi'n llunio cofrestr newydd i adlewyrchu statws imiwnedd pob aelod priodol o'r staff.</p> <p>Roeddem eisoes wedi rhoi rhybudd i gwmni Albany Cleaning oherwydd ei safonau glanhau gwael. Bydd y darparwr newydd (Cleanmate) yn ymgymryd â'r gwaith glanhau ar y pedwar safle o ddydd Llun 9 Rhagfyr 2024.</p>	<p>Nyrs Fricker</p> <p>Joanne Carter</p>	<p>diwedd mis Tachwedd 2024</p> <p>Yn cael ei roi ar waith ar hyn o bryd. Bydd y gofrestr lawn ar gael i ddangos y cam gweithredu hwn erbyn diwedd mis Tachwedd 2024</p> <p>9 Rhagfyr 2024</p>
<p>2. Ni chafodd AGIC ei sicrhau bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal ar y cyffuriau a'r cyfarpar brys. Dangosodd</p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl gyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu gwirio a'u cofnodi'n wythnosol.</p>	<p>Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel; Amserol; Gwybodaeth</p>	<p>Rydym bellach wedi rhoi gwiriad wythnosol o'r cyfarpar a'r cyffuriau brys ar waith.</p>	<p>Tîm Nyrsio</p>	<p>Cam gweithredu wedi'i gwblhau</p>

	<p>y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt fod gwiriadau misol yn cael eu cofnodi. Fodd bynnag, dylid cynnal y rhain yn wythnosol, yn unol â Chyngor Adfywio'r DU; Safonau Ansawdd: Cyfarpar gofal sylfaenol a rhestr o gyffuriau.</p>				
3.	<p>Ni chafodd AGIC sicrwydd bod y practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd (COSHH) 2002. Yn ystod ein harsylwadau, gwnaethom ganfod bod ystafell y boeler yn cael ei defnyddio i storio eitemau glanhau amrywiol, gan gynnwys hylifau peryglus. Er mwyn lleihau'r risgiau i ddiogelwch y staff a'r cleifion, dylid defnyddio ardal ar wahân ac addas i storio cyfarpar glanhau peryglus.</p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod ardal storio arall yn cael ei defnyddio ar gyfer deunyddiau glanhau, er mwyn sicrhau bod deunyddiau/hylifau peryglus yn cael eu storio'n ddiogel oddi wrth ystafell y boeler.</p>	<p>Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel</p>	<p>Cysylltwyd â chwmni Albany Cleaning yn gofyn iddo symud ei holl ddeunyddiau glanhau o'r ystafell hon erbyn 21 Hydref 2024 fan bellaf.</p>	<p>Joanne Carter</p> <p>21 Hydref 2024</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Joanne Carter
Teitl swydd: Partner Busnes Rheoli
Dyddiad: 21 Hydref 2024

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Ashfield - Practis Grŵp Pen-y-bont ar Ogwr

Dyddiad yr arolygiad: 15 Hydref 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Dim ond un hysbysiad a welsom yn cynnig gwasanaeth hebryngwr i gleifion.	Dylai'r practis ystyried arddangos rhagor o hysbysiadau mewn perthynas â'r gwasanaeth hebryngwr. Dylid arddangos y rhain mewn ardaloedd trin clinigol ac ar y wefan.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Caiff hysbysiadau eu gosod ym mhob ardal drin glinigol a chaiff copi ei lanlwytho i'r wefan.	Joanne Carter	Caiff hyn ei gwblhau erbyn 6 Rhagfyr 2024
2. Nid oedd dolen sain ar gael i helpu cleifion ag anawsterau clywed.	Dylai'r practis sicrhau bod system dolen sain ar gael ac arddangos hyn ger y dderbynfa er mwyn dangos bod y gwasanaeth hwn ar gael.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel; Yn canolbwyntio ar yr unigolyn	Mae dolen sain ar gael yn y Dderbynfa erbyn hyn er mwyn dangos bod y gwasanaeth hwn ar gael	Joanne Carter	Cam gweithredu wedi'i gwblhau

3.	Gwybodaeth gyfyngedig oedd yn y polisi llif gwaith a byddai'n fuddiol ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys sut mae'r broses yn gweithio, sut a phryd y caiff archwiliadau eu cynnal a gwybodaeth glir am ddirprwyo cyfrifoldebau.	Rydym yn argymhell bod y polisi llif gwaith yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau er mwyn darparu rhagor o wybodaeth am y broses, archwiliadau a chyfrifoldebau a gaiff eu dirprwyo.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth	Mae'r polisi llif gwaith yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau er mwyn darparu rhagor o wybodaeth am y broses, archwiliadau a chyfrifoldebau a gaiff eu dirprwyo.	Joanne Carter	Caiff y polisi ei gwblhau erbyn 31.12.24
4.	Nid oedd hyfforddiant y staff ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn gyfredol. Roedd hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer mis Tachwedd 2024.	Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a rhoi tystiolaeth i AGIC pan fydd wedi'i gwblhau.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Y Gweithlu	Gwnaeth pob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant 'Treat Me Fairly' (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) yn ystod mis Tachwedd.	Joanne Carter	Cam gweithredu wedi'i gwblhau. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn ac mae tystysgrifau ar gael i brofi hyn
5.	Gwnaethom nodi nad oedd y risg i'r bartneriaeth wedi'i chwmpasu yn y cynllun parhad	Dylid diweddarau'r cynllun parhad busnes fel ei fod yn cynnwys y risg i'r bartneriaeth fusnes.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth	Caiff y cynllun parhad busnes ei ddiweddarau er mwyn cynnwys y risg i'r bartneriaeth fusnes	Joanne Carter	Caiff y cam gweithredu hwn ei gwblhau erbyn 31.12.24

	busnes a gwnaethom argymell y dylid ychwanegu hyn at y ddogfen					
6.	Gwelsom fod cyfarpar a chyffuriau brys yn cael eu storio yn ystafell un o'r nyrsys. Gwnaethom argymell y dylid symud y cyffuriau a'r cyfarpar i leoliad canolog y gellid ei gyrraedd yn hawdd heb beryglu preifatrwydd ac urddas cleifion.	Rhaid i'r practis sicrhau bod cyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu symud i ardal lle gellir cael gafeael arnynt yn hawdd ac yn gyflym. Rhaid rhoi gwybod i bob aelod o'r staff am y lleoliad newydd.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel; Amserol	Mae'r cyffuriau a'r cyfarpar brys wedi cael eu symud i ardal hygyrch ac mae pob aelod o'r staff wedi cael gwybod am yr ardal newydd fel eu bod yn gwybod sut i gael gafeael arnynt mewn argyfwng	Joanne Carter	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau
7.	Gwnaethom argymell y dylai pob aelod o'r staff clinigol fod yn ymwybodol o'r canllawiau a'r cylchlythyrau iechyd diweddar yng Nghymru mewn perthynas â'r defnydd o ocsigen a'r gofyniad i	Rhaid i bob aelod o'r staff clinigol sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r canllawiau a'r cylchlythyrau iechyd diweddar yng Nghymru mewn perthynas â'r defnydd o ocsigen a rhoi unrhyw ofynion a	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel; Y Gweithlu; Gwybodaeth	Bydd y staff clinigol yn ymgymryd â'r hyfforddiant hwn yn ystod mis Rhagfyr 2024	Joanne Carter	Caiff y cam gweithredu hwn ei gwblhau erbyn 31.12.24

	glinigwyr sy'n ymdrin â therapi ocsigen cludadwy gwblhau hyfforddiant ar-lein.	argymhellir ar waith, gan gynnwys yr hyfforddiant ar-lein.				
8.	Nid oedd asesiad risg ar waith ar gyfer ymweliadau â chartrefi.	Rhaid cwblhau asesiad risg ar gyfer ymweliadau â chartrefi, rhoi camau lliniaru ar waith a'u cynnal fel y bo'n briodol.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel; Y Gweithlu; Gwybodaeth; Diwylliant	Caiff asesiad risg ar gyfer ymweliadau â chartrefi ei gwblhau a rhoddir camau lliniaru ar waith a'u cynnal fel y bo'n briodol	Joanne Carter	Caiff y cam gweithredu hwn ei gwblhau erbyn 31.12.24
9.	Roedd y polisiâu ar feirysau a gludir yn y gwaed a nodwyddau/offer miniog yn cyfeirio at safonau a chanlyniadau sy'n berthnasol i Loegr ac mae angen diweddarau hyn er mwyn adlewyrchu canllawiau a safonau Cymru.	Mae angen adolygu a diweddarau'r polisiâu ar feirysau a gludir yn y gwaed a nodwyddau/offer miniog er mwyn cynnwys canllawiau a safonau sy'n berthnasol i Gymru.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel; Y Gweithlu; Gwybodaeth	Caiff y polisiâu ar feirysau a gludir yn y gwaed a nodwyddau/offer miniog eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn cynnwys safonau a chanllawiau sy'n berthnasol i Gymru.	Joanne Carter	Caiff y cam gweithredu hwn ei gwblhau erbyn 31.12.24
10.	Roedd polisi rhagnodi ar waith. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth	Rhaid i'r practis ddiweddarau'r polisi rhagnodi er mwyn	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth	Caiff y polisi rhagnodi ei ddiweddarau er mwyn cynnwys	Claire Arthur	Caiff y cam gweithredu hwn ei gwblhau erbyn 31.12.24

	am ailawdurdodi rhai meddyginiaethau y mae angen i feddyg teulu eu cymeradwyo.	cynnwys ailawdurdodi meddyginiaeth.		ailawdurdodi meddyginiaeth		
11.	Nodwyd bod yr oergell ar gyfer brechlynnau yn yr ystafell drin yn orlawn. Gallai hyn amharu ar lif yr aer a'r gallu i gynnal tymereddau priodol. Dylai'r practis ystyried storio brechlynnau yn yr oergell feddygol er mwyn sicrhau bod yr aer yn llifo'n briodol.	Rhaid i'r practis sicrhau nad yw'r oergelloedd meddygol yn cael eu gorlenwi â brechlynnau ac ystyried cael oergell ychwanegol er mwyn sicrhau bod y trefniadau storio yn briodol a bod llif aer priodol.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel; Effeithlon	Mae'r stoc yn yr oergell wedi cael ei lleihau a chaiff ei chadw ar lefel isel er mwyn sicrhau nad yw'r oergell yn cael ei gorlenwi	Joanne Carter	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau
12.	Roedd arweinydd diogelu a enwyd yn y practis ond nid oedd hyn wedi'i gofnodi yn y polisi ac nid oedd rhai	Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwybod pwy yw'r arweinydd diogelu ar gyfer oedolion a phlant, a rhaid arddangos	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel; Y Gweithlu; Gwybodaeth	Mae'r staff wedi cael gwybod mai Dr Clare Hughes yw'r arweinydd diogelu ac mae ei manylion wedi	Joanne Carter	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau

	aelodau o'r staff yn gwybod pwy oedd arweinydd diogelu'r practis.	manylion yr unigolyn yn amlycach i'r staff. Dylai'r polisi diogelu gynnwys enw'r arweinydd diogelu ar gyfer plant ac oedolion.		cael eu rhannu â phob aelod o'r staff. Mae'r polisi diogelu bellach yn cynnwys enw Dr Hughes fel yr arweinydd diogelu ar gyfer plant ac oedolion		
13.	Gwelsom nad oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r lefel briodol o hyfforddiant ar ddiogelu. Mae cwrs hyfforddiant wedi cael ei drefnu ar gyfer mis Tachwedd 2024 er mwyn sicrhau bod gan y staff lefel briodol o wybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion.	Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â'r lefel ofynnol o hyfforddiant diogelu (plant ac oedolion) sy'n briodol i'w rôl, a dylid cadw cofnod er mwyn dangos hyn.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel; Y Gweithlu; Gwybodaeth	Gwnaeth pob aelod o'r staff gwblhau Hyfforddiant Lefel 2 ar Ddiogelu ar gyfer plant ac oedolion yn ystod mis Tachwedd	Joanne Carter	Cam gweithredu wedi'i gwblhau. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn ac mae tystysgrifau ar gael i brofi hyn
14.	O'r nodiadau y gwnaethom edrych	Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal -	<ul style="list-style-type: none"> Rydym yn newid ein 	Joanne Carter	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y broses casglu data

<p>arnynt, gwelsom nad oedd dewis iaith y cleifion wedi'i nodi'n amlwg. Cawsom wybod y byddai hyn yn ymddangos fel hysbysiad. Yn ogystal â hyn, byddai o fudd i'r practis gael trefn y cytunir arni ar gyfer cofnodi arsylwadau, gan gynnwys pwysedd gwaed, pwls a thymheredd, y gellir eu harchwilio. Gwelsom fod rhai aelodau o'r staff yn defnyddio'r templedi ond nad oedd rhai eraill. Felly, byddai'n anodd casglu'r math hwn o ddata. Nid oedd y rhesymau dros beidio â darparu meddyginiaethau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi'n amlwg ar eu cofnodion clinigol • Bod dull cyson o gofnodi arsylwadau yn cael ei roi ar waith er mwyn monitro ac archwilio'r rhain yn ôl y gofyn • Bod unrhyw feddyginiaeth nad yw'n cael ei darparu mwyach yn cael ei dogfennu yng nghofnodion y cleifion ynghyd â'r rheswm pam. 	<p>Diogel; Gwybodaeth; Yn canolbwyntio ar yr unigolyn</p>	<p>holiaduron newydd i gleifion er mwyn gofyn am eu dewis iaith. Mae opsiwn ar ein system glinigol ar gyfer dewis iaith ond Saesneg yw'r opsiwn awtomatig oni bai fod y claf yn nodi ei ddewis. Byddwn yn cynnal proses casglu data er mwyn ceisio diweddarau cynifer o gofnodion â phosibl.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae pob un o'r clinigwyr wedi cael 		<p>yn mynd rhagddi dros sawl mis ond caiff yr holiadur newydd i gleifion ei newid erbyn 6 Rhagfyr 2024</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau • Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau
--	--	---	---	--	---

	mwyach yn cael eu cofnodi'n gyson yn y nodiadau y gwnaethom edrych arnynt.			cyfarwyddyd i sicrhau eu bod yn defnyddio'r templedi i gofnodi arsylwadau o hyn ymlaen <ul style="list-style-type: none"> • Mae hyn bellach wedi cael ei roi ar waith 		
15.	Rhaid i bob polisi a gweithdrefn gynnwys gwybodaeth lawn am rifau fersiynau.	Rhaid i'r practis sicrhau bod rhifau fersiynau wedi'u nodi ar bob polisi a gweithdrefn, a'u bod yn cynnwys enw awdur y polisi ynghyd â'r dyddiad gweithredu a'r dyddiadau adolygu.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth	Mae pob polisi yn cael ei ddiwygio er mwyn ychwanegu rhifau fersiynau	Joanne Carter	Caiff y cam gweithredu hwn ei gwblhau erbyn 31.12.24
16.	Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal fel mater o drefn, ond nid oedd pob un yn cael ei gofnodi. Pan fo'n briodol, dylid cadw	Rhaid i'r practis gymryd cofnodion ym mhob cyfarfod a, lle y bo'n berthnasol, dylid cadw cofnod o gamau gweithredu er mwyn sicrhau y gellir eu	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Arweinyddiaeth; Effeithiol	Rydym yn sicrhau bod cofnodion yn cael eu cymryd ym mhob cyfarfod erbyn hyn a chaiff cofnodion papur eu llunio a'u ffeilio. Lle y bo'n	Joanne Carter	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau

	cofnod o gamau gweithredu hefyd fel ffordd o sicrhau bod camau allweddol yn cael eu cymryd.	monitro a'u rhoi ar waith.		berthnasol, defnyddir cofnodlyfr o gamau gweithredu er mwyn sicrhau y gellir monitro camau gweithredu a'u rhoi ar waith		
17.	Er bod y broses recriwtio a ddisgrifiwyd gan yr uwch-aelodau o'r staff yn foddhaol, nid oedd polisi recriwtio ar waith i gefnogi hyn.	Rhaid i'r practis roi polisi recriwtio ar waith.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Arweinyddiaeth; Y Gweithlu	Byddwn yn rhoi polisi recriwtio ar waith er mwyn adlewyrchu'r weithdrefn rydym yn ei defnyddio ar hyn o bryd	Joanne Carter	Caiff y cam gweithredu hwn ei gwblhau erbyn 31.12.24
18.	Roedd y practis wrthi'n diweddarau disgrifiadau swydd, ac felly nid oedd disgrifiad swydd yn ffeil pob aelod o'r staff.	Rhaid i'r practis sicrhau bod gan bob aelod o'r staff ddisgrifiad swydd cyfredol.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Y Gweithlu	Rydym yn parhau i ddiweddarau pob disgrifiad swydd, ond mae cryn dipyn o waith i'w wneud	Joanne Carter	Rydym yn gobeithio cwblhau pob disgrifiad swydd erbyn dechrau mis Ionawr 2025
19.	Er i ni weld bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cwblhau ar gyfer rhai aelodau o'r staff, roedd gwiriadau eraill	Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff a'i bod yn ofynnol iddynt ddatgan na fu unrhyw	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Arweinyddiaeth; Y Gweithlu	Mae pob aelod o'r staff wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bellach. Y camau nesaf yw llunio datganiad a'i rannu â'r holl staff er mwyn	Joanne Carter	Mae rhan gyntaf y cam gweithredu hwn wedi cael ei gwblhau a chaiff rhan dau ei gwblhau erbyn 31.12.24

	ar wahanol gamau o'r broses.	newidiadau a fyddai'n effeithio ar eu statws yn hyn o beth.		iddynt ei lofnodi a chadarnhau na fu unrhyw newidiadau a fyddai'n effeithio ar eu statws.		
20.	Er bod hyfforddiant gorfodol rhai aelodau o'r staff yn gyfredol, wrth edrych ar y cofnodion gwelsom fod bylchau mawr ar gyfer y staff clinigol a'r staff anghlinigol, gan gynnwys o ran hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau.	Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cydymffurfio'n llawn â hyfforddiant gorfodol a rhoi tystiolaeth i AGIC pan fyddant wedi'i gwblhau.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Arweinyddiaeth; Y Gweithlu	Rydym wedi rhoi matrices hyfforddiant ar waith a sefydlu cyrsiau dysgu ar-lein i bob aelod o staff gyda Dysgu@Cymru. Rydym wedi rhannu'r holl gyrsiau hyfforddiant gorfodol y mae'n ofynnol i'r staff eu cwblhau a byddwn yn defnyddio'r pedair sesiwn amser penodol i ddysgu nesaf i drefnu hyfforddiant	Joanne Carter	Bydd y cam gweithredu hwn yn parhau ond mae'r practis yn ymdrin â phob bwlch a defnyddir nodiadau atgoffa i roi gwybod i'r staff pan fydd angen iddynt ailadrodd yr hyfforddiant
21.	Nid oedd tudalen we'r practis ar gyfer cwynion yn gweithio. Rhaid i'r practis adolygu ei wefan er mwyn	Rhaid i'r practis adolygu ei wefan er mwyn sicrhau bod y dudalen am gwynion yn gweithio a sicrhau bod modd cael gafael ar fanylion am	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Dysgu, gwella ac ymchwil	Mae adran yn cael ei hychwanegu at ein gwefan er mwyn darparu gwybodaeth am ein gweithdrefn gwyno	Joanne Carter	Caiff y cam gweithredu hwn ei gwblhau erbyn 31.12.24

	<p>sicrhau bod gwybodaeth am gwynion ar gael. Dylai gwybodaeth am Gweithio i Wella fod ar gael ar y wefan hefyd, yn Gymraeg ac yn Saesneg.</p>	<p>broses Gweithio i Wella GIG Cymru yn hawdd.</p>				
22.	<p>Ni welwyd unrhyw dystiolaeth bod y practis yn casglu adborth gan gleifion ac yn gweithredu yn ei gylch. Dywedodd y staff wrthym y gall y cleifion anfon neges e-bost neu ysgrifennu i'r practis i gyflwyno adborth. Byddai unrhyw adborth yn cael ei roi i'r staff rheoli er mwyn iddynt ei adolygu a chymryd camau gweithredu priodol yn ei gylch.</p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod y cleifion yn cael gwybod sut i rannu adborth ar eu profiad, er mwyn helpu i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth a gwella profiad y claf.</p>	<p>Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Dysgu, gwella ac ymchwil; Dull systemau cyfan</p>	<p>Caiff Arolwg Boddhad Cleifion blynyddol ei gynnal bob blwyddyn. Rydym newydd gwblhau'r cylch hwn ac wedi casglu dros 700 o holiaduron wedi'u cwblhau, ar ffurf bapur ac yn electronig. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth hon mewn cyflwyniad PowerPoint i'w rannu â'n Cydweithredfa a byddwn hefyd yn rhannu'r wybodaeth â Llywodraeth Cymru fel rhan o'n prosiect Gwella Ansawdd.</p>	<p>Joanne Carter</p>	<p>Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau</p>

			Rydym yn gweithredu ar yr adborth hwn a ddarperir gan ein cleifion		
--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Joanne Carter

Swydd: Partner Busnes Rheoli

Dyddiad: 2 Rhagfyr 2024